

# Glasbrint Casgliadau: ailgylchu un pas



## Gwneud mwy gyda llai ar gerbydau un pas Ynys Môn

Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, gofynnwyd awdurdodau lleol i barhau i wella perfformiad ailgylchu a gostwng costau ar yr un pryd.

Cyngor Sir Ynys Môn, mewn partneriaeth gyda Biffa, yw un o sawl cyngor Cymreig sydd wedi cyflwyno cerbydau adennill adnoddau un pas (RRV) er mwyn lleihau costau a gwella gwasanaeth. Mae hynny'n galluogi'r Cyngor i gasglu amrediad eang o ddeunyddiau ar yr un pryd:

- Gwastraff bwyd - trigolion yn cael blwch 5 litr ar gyfer y gegin a blwch 23 litr i'w gadw tu allan y cartref
- Blwch coch 40 litr ar gyfer papur & card
- Blwch glas 55 litr ar gyfer poteli plastig, caniau cymysg a gwydr
- Eitemau arbennig fel batris, ffonau symudol & tecstilau

Gwasanaeth wythnosol yn golygu bod y blychau hyn yn gallu cludo mwy na'r gofod yn y bin gwastraff gweddilliol, sef 240 litr a

gesglir bob pythefnos.

Yn 2015/16 ailgylchodd Ynys Môn 59.5% o'i wastraff.

### **Cerbydau newydd yn gwella effeithlonrwydd**

Fel rhan o'r newid darparodd contractwr y cyngor Biffa fflyd newydd o gerbydau Kerbsort adennill adnoddau un pas (RRVs), gyda gyrrwr ac un swyddog casglu.

Cyn hynny, defnyddiwyd dau gerbyd: un ailgylchu a'r llall ar gyfer gwastraff bwyd. O ganlyniad gostyngwyd nifer y cerbydau o 15 to 10, gyda'r cerbydau'n seiliedig ar chassis 12 tunnell DAF.

Mae dau o'r cerbydau'n fyrrach na'r gweddill er mwyn negodi strydoedd cul.

Yn ogystal â gwella effeithlonrwydd casgliadau wrth gludo mwy o ddeunyddiau, mae'r newid wedi gostwng nifer y milltiroedd a defnydd disel.

Amcangyfrifir bydd y cerbydau newydd

yn gostwng milltiroedd gweithredu oddeutu 80,000 cilomedr y flwyddyn, tra'n arbed 15,000 litr o ddisel a gostwng allyriadau CO2 bron 50 tunnell.

Dywed y contractwr bod y gweithwyr yn dioddef llai o anafiadau oherwydd eu bod yn didoli'r holl ddeunyddiau ar yr un uchder ar y cerbyd.

### **Didoli ar y stryd**

Mae'r cerbydau newydd yn cynnwys pum adran y gellir agor o'r ddwy ochr, gan hwyluso storio deunydd.

Tu ôl cab y gyrrwr mae adran ar gyfer deunyddiau ysgafnach, caniau cymysg a photeli plastig. Pan fydd yr adran yn llawn hyd at lefel y gweithwyr, gellir cau'r drysau ar yr ochr, gyda mecanwaith siswrn yn gwthio'r plastig a'r caniau i mewn i'r gofod yn y to.

Tu ôl yr adran caniau & plastig, mae un ar gyfer papur, un arall ar gyfer gwydr a dau flwch bwyd symudol - un ar naill ochr y cerbyd - ar gyfer gwastraff cegin mewn bagiau biodiraddadwy.

Yna, mae adrannau eraill ar gyfer deunyddiau fel dillad, batris a ffonau symudol. Yn olaf, adran fawr ar gyfer cardbord ar gefn y cerbyd, yn cynnwys mecanwaith cywasgu er mwyn gwneud defnydd effeithiol o'r holl gerbyd.

### **Gostwng costau ailgylchu**

Mae newid y drefn wedi arbed dros £200,000 y flwyddyn i drethdalwyr Ynys Môn.

Gyda tharged statudol i ailgylchu 70% o wastraff trefol erbyn 2024/25, mae Ynys Môn am barhau i wella gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu, gan alw ar yr RRVs i gymryd hyd yn oed mwy o ddeunyddiau.

Ym mis Hydref 2016, bydd y Cyngor yn dechrau casglu gwastraff gweddilliol bob tair wythnos. Ar yr un pryd bydd yn cychwyn casglu plastig cymysg fel potiau yogwrt a blychau menyn fel rhan o'r gwasanaeth ailgylchu. Rhagwelir bydd hyn yn cynyddu lefelau ailgylchu wrth gasglu mwy ac yn tynnu deunyddiau ailgylchu allan o'r llif gwastraff gweddilliol.

Yn ogystal â chasglu mwy o blastig, mae'r Cyngor yn gobeithio bydd y newid yn cymhell pobl i ddioli mwy o wastraff bwyd ac yn rhagweld bydd yn arwain at arbedion pellach o £108,000 y flwyddyn mewn costau gwaredu gwastraff.

### **Deunydd yn barod i'w ailbroseu**

Pan fydd y cerbydau'n mynd i'r depo i'w dadlwytho, bydd y gweithwyr yn dechrau wrth dynnu tecstilau, batris a ffonau symudol.

Yna byddant yn tynnu'r blychau bwyd o'r cerbyd, gyda cherbyd 'fforch godi' yn rhoi'r deunydd mewn sgip yn barod i'w gludo i uned treulio anaerobig.

Wedyn bydd y cerbydau'n mynd i fae arall er mwyn tynnu gwydr o'r ddwy ochr ac yna bae cardbord.

Tynnir plastig a chaniau o'r to ac yn olaf bydd y gweithwyr yn agor y drysau ar ddwy ochr y cerbyd er mwyn gwacau papur, cyn dychwelyd y blychau bwyd i'r cerbyd yn barod i adael y safle.

Ar ôl tynnu'r holl ddeunyddiau o'r cerbyd, bydd y gweithwyr yn didoli'r poteli plastig a'r caniau alwminiwm a dur. Rhwir yr holl ddeunyddiau eraill mewn pecynnau yn y manau cymwys cyn cael eu cludo i gwmnïau ailbroseu gan eu bod eisoes wedi'u didoli ar y cerbyd.

